Eich cyf / Your ref:
Fy nghyf / My ref:
Dyddiad / Date: 15/06/2026

Gofynner am / Please ask for: Tîm RhMY
Llinell Uniongyrchol / Direct Line:
E-bost / E-mail: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Annwyl Ymgynghorai,

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir**
**Cynnig i Newid yr Ystod Oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Y Ddwylan o 1 Medi 2026**

Ar 10 Mehefin 2026, penderfynodd Cyngor Sir Caerfyrddin gymeradwyo'r cynnig canlynol:

**Newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Y Ddwylan a darparu 11 o leoedd meithrin o'r 1 Medi 2026.**

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig**

Cafwyd dau o wrthwynebiadau.

Wrth wneud ei benderfyniad, mae'r Cyngor Sir wedi ystyried Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ac wedi ystyried y ffactorau perthnasol a nodir ynddo. Nododd y Cyngor fod dau wrthwynebiad wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Ystyriodd y Cyngor yn ofalus gynnwys y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb yr Awdurdod Lleol fel y nodir yn yr Adroddiad Gwrthwynebu a gyhoeddwyd. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y materion a godwyd yn y gwrthwynebiadau wedi'u hystyried yn briodol ac nad ydynt yn gorbwyso manteision y cynnig.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer y cynnig uchod ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ddilyn y ddolen isod:

Adroddiad Gwrthwynebiadau

**Ystyried y Ffactorau o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)**

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cyngor Sir wedi ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraffau 1.3 i 1.6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys yn benodol y canlynol:

**Ansawdd a safonau mewn Addysg**

Nid yw disgwyl i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd a safon yr addysg, nac ar y modd mae'r Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol dilynol yn cael eu cyflwyno yn yr ysgol. Rhagwelir y bydd y cynnig yn cynnal, ac, o bosibl, yn gwella safonau cyfredol y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol a'r ardal ehangach.

Mae Estyn wedi dweud bod y cynnig “yn debygol o gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer blant 3–11 oed i safon sydd o leiaf yn gyfwerth â chynnig 4–11 presennol yr ysgol”. Mae hyn yn cefnogi’r farn y bydd y cynnig yn cynnal addysgu a dysgu o safon uchel ac yn sicrhau parhad o ran profiadau addysgol disgyblion o oedran iau.

Hefyd mae disgwyl i ymestyn yr ystod oedran gryfhau’r broses ddilyniant a trosglwyddo rhwng ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a’r Cyfnod Sylfaen, gan gefnogi deilliannau gwell i ddysgwyr dros amser. Mae’r Cyngor yn fodlon y bydd y cynnig yn cynnal safonau uchel o addysg ac yn cefnogi gwell deilliannau i ddysgwyr.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig, roedd y Cyngor o'r farn y byddai'r newid yn yr ystod oedran yn gwella'r capasiti i blant yn y gymuned leol a hefyd yn alinio Ysgol Y Ddwylan ag ysgolion eraill yn yr ardal yn unol â dileu’r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed.

Bydd y cynnig yn darparu rhagor o leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg er mwyn ateb y galw lleol a chefnogi dewis rhieni yn y dalgylch.

Bydd yn galluogi plant i gael mynediad at ddarpariaeth feithrin yn eu hysgol leol, gan leihau’r angen am deithio i leoliadau eraill. Disgwylir i hyn gael effaith gadarnhaol ar hygyrchedd, lleihau amseroedd teithio, a lleihau pwysau logistaidd ar deuluoedd.

Mae cyd-leoli darpariaeth feithrin a darpariaeth gynradd hefyd yn debygol o wella parhad y ddarpariaeth a hwyluso pontio i ddysgwyr, yn enwedig i deuluoedd â brodyr a chwiorydd sy’n mynychu’r un ysgol.

**Adnoddau addysg**

Bydd ymestyn ystod oedran yr ysgol yn darparu fframwaith mwy cydlynol ac effeithiol ar gyfer darparu addysg, gan alluogi'r ysgol i adeiladu ar gryfderau presennol ac i gyflwyno darpariaeth barhaus ar draws ystod oedran ehangach.

Bydd y cynnig yn cefnogi'r defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol posibl o staff, adeiladau ac adnoddau dysgu, er mwyn cefnogi deilliannau gwell ar gyfer pob dysgwr.

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau y bydd Ysgol Y Ddwylan yn parhau i gael ei hariannu yn unol â Pholisi Ariannu Teg yr Awdurdod. Bydd yr ysgol yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag ysgolion eraill yn y sir, a nifer y disgyblion fydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i benderfynu ar y cyllid. Mae hyn yn sicrhau bod y cynnig yn gynaliadwy yn ariannol ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar ariannu'r ddarpariaeth addysg yn yr ysgol neu yn rhywle arall.

**Effaith ar y Gymraeg**

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae’r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i baragraff 1.4 o God Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys y gofyniad i ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a’i gydnawsedd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod.

Bydd y cynnig yn cynyddu mynediad at ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol drwy ymestyn darpariaeth yn Ysgol y Ddwylan o 4–11 i 3–11 oed. Disgwylir y bydd hyn yn cefnogi'r niferoedd sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gam cynharach ac yn cryfhau dilyniant i addysg statudol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ehangach ac mae'n fodlon y bydd yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y Gymraeg, a bod y cynnig yn gyson ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod.

**Penderfyniad**

Ar ôl ystyried y ffactorau a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (2018), ac am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.

**Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Nid yw'r wybodaeth isod yn berthnasol i rieni / gwarcheidwaid ond mae wedi'i darparu er cyflawnder.

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod Lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Cysylltwch â Thîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir,

Tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg